Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu
Independent Office for Police Conduct

Gwybodaeth i deuluoedd – sut ydyn ni'n ymchwilio ac yn eich cefnogi yn dilyn marwolaeth

Canllaw cryno

Ar gyfer pwy mae'r wybodaeth hon?

Mae'r wybodaeth hon ar gyfer teulu a ffrindiau rhywun sydd wedi marw yn ystod neu yn dilyn cyswllt â'r heddlu.

Yr hyn rydym yn ei wneud

Rydym yn annibynnol oddi ar yr heddlu a'r llywodraeth. Rydym yn ymchwilio i'r materion mwyaf difrifol sy'n ymwneud â'r heddlu, ond rydym ar wahân i'r heddlu.

Rhaid i bob marwolaeth ac anaf difrifol yn ystod neu yn dilyn cyswllt â'r heddlu, yn ôl y gyfraith, gael eu cyfeirio at yr IOPC. Pan fyddwn ni'n derbyn atgyfeiriad gan heddlu, byddwn ni'n penderfynu a oes angen cynnal ymchwiliad.

Pwy sy'n gweithio i'r IOPC?

Daw ein staff o amrywiaeth o wahanol gefndiroedd, yn cynnwys isafswm a allai fod wedi gweithio'n flaenorol i'r heddlu.

Beth mae ymchwiliad yr IOPC yn ei gynnwys?

Cymryd datganiadau gan dystion.

Cyfweld swyddogion heddlu neu aelodau o staff yr heddlu[1].

Edrych ar dystiolaeth teledu cylch cyfyng.

Casglu tystiolaeth feddygol a fforensig.

Casglu dogfennau a chofnodion eraill.

1. Pan fyddwn ni'n cyfeirio at swyddogion a staff yr heddlu, gallai hyn gynnwys contractwyr, yn ddibynnol ar bwy oedd yn gysylltiedig, a gwirfoddolwyr (yn wirfoddolwyr cefnogaeth gymunedol a chefnogaeth heddlu) gyda phwerau tebyg i'r heddlu.

Weithiau byddwn yn siarad gydag arbenigwyr, fel pobl sydd ag arbenigedd fforensig, gwahaniaethu neu feddygol.

Pwy fydd yn cynnal yr ymchwiliad?

Ein hymchwilwyr ein hunain fydd yn cynnal yr ymchwiliad.

Beth fydd yr IOPC yn ymchwilio iddo?

Ein rôl yw canfod beth ddigwyddodd i'ch ffrind neu berthynas a pham, a beth oedd rôl yr heddlu.

Byddwn yn sicrhau eich bod yn cael cyfle i roi sylwadau ar yr hyn y gallai'r ymchwiliad ei drafod a gofyn cwestiynau yr ydych am i'r ymchwiliad eu hystyried.

Yn ôl y gyfraith, rhaid i ni ymchwilio pan all y wladwriaeth (neu bobl sy'n gweithio i'r wladwriaeth, fel yr heddlu) fod wedi achosi neu gyfrannu at farwolaeth neu fod wedi methu amddiffyn rhywun.

Ein gwaith ni yw canfod beth ddigwyddodd a pham. Gelwir hyn yn Erthygl 2 y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Weithiau, fe gyfeirir ato fel 'Erthygl 2' yn unig neu'r 'hawl i fyw'.

Sut fyddwn ni'n ymchwilio

- Efallai y byddwn yn mynd i'r lleoliad ac yn rhoi cyfarwyddiadau i heddlu lleol ar gasglu tystiolaeth. Byddwn yn edrych ar beth sydd wedi digwydd ac a oes unrhyw arwydd y cyflawnwyd trosedd.
- Byddwn yn siarad â'r teulu, Gwasanaeth Erlyn y Goron (CPS), y crwner, y cyfryngau a'r gymuned leol.
- Rydym yn gwrando ar gwestiynau gan y teulu ac yn trafod beth fydd yr ymchwiliad yn ei gynnwys.
- Rydym yn dadansoddi'r dystiolaeth.
- Mae'r sawl sy'n arwain yr ymchwiliad yn penderfynu a ddylid anfon yr achos at y CPS. Am ragor o wybodaeth ar y CPS, ewch i dudalen 5.
- Mae'r heddlu yn ymateb i'n hargymhellion.

- Rhennir ein hadroddiad â'r teulu.
- Rhoddir ein hadroddiad i'r crwner.
- Gellir cyhoeddi ein hadroddiad ar ein gwefan.

Beth i'w ddisgwyl o brosesau a gan sefydliadau eraill

- Dywedir wrth y crwner am y farwolaeth.
- Bydd y crwner yn dweud wrth batholegydd gynnal archwiliad post-mortem i ganfod achos meddygol y farwolaeth.
- Mae'r crwner yn agor y cwest i ganfod beth ddigwyddodd.
- Gall gwrandawiadau cyn cwest[2] ddigwydd tra byddwn yn ymchwilio.

Beth i'w ddisgwyl gennym ni yn ystod ein hymchwiliad

Byddwn yn cysylltu â chi i esbonio ein rôl ac i sefydlu ein cylch gorchwyl. Mae'r rhain yn rhoi gwybod i chi beth fydd yr ymchwiliad yn ei gynnwys. Wrth i ni gael rhagor o wybodaeth, bydd y cylch gorchwyl weithiau'n newid.

Byddwn yn eich diweddaru ar ein cynnydd o leiaf bob 28 diwrnod.

Efallai y byddwn mewn cysylltiad yn amlach os oes datblygiadau arwyddocaol. Byddwn yn gofyn i chi sut y byddech yn hoffi cael gwybodaeth.

Pa wybodaeth fyddwn ni'n ei rhoi i chi?

Byddwn yn dweud wrthych am yr holl dystiolaeth a ganfuwyd yn ystod yr ymchwiliad, oni bai fod y gyfraith yn dweud na allwn roi gwybodaeth i chi.

A fydd aelodau'r teulu neu ffrindiau yn rhoi datganiadau?

Os oeddech chi'n dyst i'r hyn a ddigwyddodd, bydd aelod o'n tîm yn cymryd datganiad. Neu efallai y byddwch yn rhoi datganiad sy'n cynnwys gwybodaeth am yr aelod o'ch teulu neu ffrind. Gallai hyn helpu ein hymchwiliad a'r crwner.

2. Mae gwrandawiad cyn cwest yn digwydd os bydd y crwner eisiau eglurhad ar rywfaint o wybodaeth cyn y prif gwest.

Pa mor hir fydd ymchwiliad yn ei gymryd?

Mae'n bwysig i ni fod wedi edrych ar bopeth a cheisio ateb eich cwestiynau. Allwn ni ddim rhoi gwybod i chi o flaen llaw faint o amser fydd hyn yn ei gymryd. Gall ymchwiliadau gymryd misoedd i'w cwblhau.

Beth sy'n digwydd unwaith y bydd yr ymchwiliad ar ben?

Byddwn yn ysgrifennu adroddiad yn sefydlu beth ydym wedi ei ganfod a'n casgliadau. Bydd yr adroddiad hefyd yn trafod os oes unrhyw un wedi nodi unrhyw ddysg neu gamymddwyn[3]. Os byddwn yn meddwl bod swyddog heddlu neu aelod o staff yr heddlu wedi cyflawni trosedd, byddwn yn rhoi ein hadroddiad i'r CPS. Cyfreithiwr y CPS fydd yn penderfynu a oes digon o dystiolaeth i sicrhau collfarn ac a yw er budd y cyhoedd i erlyn.

Os cynhelir cwest, anfonir copi o'n hadroddiad ac o'r dystiolaeth i'r crwner a fydd yn penderfynu a ddylai ei gyhoeddi neu beidio.

Byddwn hefyd yn rhoi eich copi eich hun o'r adroddiad i chi. Efallai na fyddwn yn gallu gwneud hyn nes bydd unrhyw erlyniad troseddol neu gamau disgyblu.

Gallwch ddarllen mwy am ganlyniadau eraill posibl ar dudalen 6.

A oes angen i chi gysylltu â chyfreithiwr?

Mae gan rai cyfreithwyr brofiad arbenigol o ymdrin ag achosion o farwolaeth yn ystod neu yn dilyn cyswllt â'r heddlu, neu o baratoi ar gyfer cwestau. Gallant:

- eich cynrychioli yn y cwest
- helpu casglu a gorffen y gwaith papur
- bod yn brif fan cyswllt rhyngoch chi a'r IOPC

Mae'r sefydliad INQUEST (manylion cyswllt ar dudalen 9) yn rhoi gwasanaeth am ddim,

3. Rhaid i holl swyddogion yr heddlu a staff yr heddlu ddilyn y safonau swyddogol o ymddygiad proffesiynol. Diffinnir camymddwyn fel torri'r safonau yma. Diffinnir camymddwyn difrifol fel torri'r safonau proffesiynol, sydd mor ddifrifol fel y gallai gyfiawnhau diswyddo.

cyfrinachol ac annibynnol i bobl mewn profedigaeth o ganlyniad i farwolaeth wedi cyswllt â'r heddlu.

Diddordeb y cyfryngau

Os byddwn yn bwriadu cyhoeddi datganiad newyddion yn ymwneud â'ch ffrind neu berthynas, byddwn yn ceisio ei anfon atoch ymlaen llaw a byddwn yn gwrando ar unrhyw bryderon neu sylwadau sydd gennych. Os oes rhesymau pam bod angen i ni gynnwys gwybodaeth, byddwn yn trafod y rhain â chi. Bydd enw rhywun sydd wedi marw fel arfer yn dod yn gyhoeddus pan fydd y crwner yn agor y cwest. Os yw'r wasg yn anwybyddu eich cais am breifatrwydd, gallwch gwyno i Sefydliad Safonau Annibynnol y Wasg (www.ipso.co.uk).

Canlyniadau posibl ymchwiliad

Dysgu gwersi

Yn aml gall ein hymchwiliadau ddarganfod gwersi y mae'n rhaid i heddluoedd eu dysgu i osgoi gweld yr un peth yn digwydd eto. Efallai y bydd angen i'r llu heddlu newid y ffordd y mae'n gwneud pethau, neu ddiwygio ei bolisïau.

Camau disgyblu a gymerir gan yr heddlu

Os byddwn yn dweud bod achos i'w ateb[4] am gamymddwyn neu gamymddwyn difrifol, yr heddlu perthnasol, nid yr IOPC, sy'n cymryd camau disgyblu neu gynnal camau perfformiad.

Mewn nifer fechan o achosion, byddwn yn gallu cyflwyno'n hachos mewn gwrandawiad camymddwyn[5] ble nad oes cytundeb rhyngom a'r heddlu ynghylch achos i'w ateb am gamymddwyn difrifol.

4. Mae 'achos i'w ateb' yn golygu bod digon o dystiolaeth y gallai'r honiad gael ei brofi mewn cyfarfod neu wrandawiad disgyblu.
5. Cynhelir gwrandawiad camymddwyn mewn achosion ble byddai ymddygiad rhywun, o'i brofi'n wir, yn cyfateb i gamymddwyn difrifol. Mae hyn yn ddigwyddiad ffurfiol sy'n pennu os yw'r person wedi cyflawni camymddwyn difrifol a pha gosb, os o gwbl, ddylai wynebu.

Bydd y camau disgyblu posibl y gallai rhywun wynebu yn cynnwys:

- Rhybudd ysgrifenedig yn cael ei ychwanegu at ffeil bersonol y swyddog. Os canfyddir bod y swyddog heddlu yn cyflawni unrhyw gamymddwyn yn y ddwy flynedd yn dilyn y rhybudd hwn (wedi ei ymestyn i bum mlynedd dan rai amgylchiadau), mae'n debygol o arwain at rybudd ysgrifenedig terfynol.
- Ychwanegu rhybudd ysgrifenedig terfynol at ffeil bersonol y swyddog.
- Lleihad mewn rheng.
- Diswyddo heb rybudd.

Ni fydd ymchwiliad IOPC o angenrheidrwydd yn canfod bod swyddog nag aelod o staff yr heddlu wedi cyflawni trosedd na chamymddwyn. Os yw hynny'n wir, ni chymerir unrhyw gamau disgyblu. Yn yr achosion hyn, efallai y bydd yr heddlu'n penderfynu y dylai'r rhai dan sylw wynebu gweithredoedd pellach, megis:

- Os oes angen gwella perfformiad swyddog, ynghyd â'i reolwr, gall gyflawni proses canfod ffeithiau ac yna ystyried y rhain a thrafod beth sydd angen ei wneud i wella ei berfformiad. Ffocws y broses fydd cywiro pethau a'i atal rhag digwydd eto trwy annog y rhai sy'n gysylltiedig i ystyried eu gweithredoedd a dysgu ohonynt.
- Gallant nodi bylchau mewn arweiniad – er enghraifft, y canllaw mae'n rhaid i rai sy'n delio â galwadau ei ddilyn – a'i ddiweddaru.
- Efallai y bydd swyddogion sy'n goruchwylio yn cynnig cyngor anffurfiol i'w staff, yn nodi unrhyw anghenion hyfforddi ac yn trefnu i fodloni'r rhain.

Erlyniadau troseddol

Bydd ein hadroddiad i'r ymchwiliad yn dweud os ydyn ni'n meddwl bod rhywun wedi cyflawni trosedd. Bydd y CPS yn ystyried ein hadroddiad ac yn penodi cyfreithiwr erlyn a ddewiswyd yn arbennig i ystyried yr holl dystiolaeth a phenderfynu a oes digon o dystiolaeth i gynnig rhagolygon

realistig y bydd collfarn. Byddant hefyd yn ystyried a yw er budd y cyhoedd i erlyn.

Ynglŷn â'r sefydliadau eraill fydd yn ymwneud â'r farwolaeth

- Bydd y **crwner** yn cynnal cwest i gael gwybod sut, pryd a ble y digwyddodd y farwolaeth.
- Bydd y **patholegydd** yn cynnal archwiliad post-mortem, i geisio canfod y rheswm meddygol am y farwolaeth.
- Mae'r **CPS** yn penderfynu a oes digon o dystiolaeth i erlyn.
- Efallai y bydd sefydliadau eraill, megis ymddiriedolaethau GIG, yn cynnal adolygiadau yn ddibynnol ar amgylchiadau'r hyn a ddigwyddodd.

Cysylltiadau'r IOPC

Ymchwilydd arweiniol

Yr ymchwilydd arweiniol fydd y prif unigolyn fydd yn gyfrifol am yr ymchwiliad. Dan rai amgylchiadau, bydd hefyd yn brif fan cyswllt i chi. Bydd yn eich helpu i ddeall beth ydyn ni'n ei wneud a sut yr ydym yn cynnal ein hymchwiliad.

Rheolwr cyswllt teulu (FLM)

Efallai y bydd gennych reolwr cyswllt teulu (FLM) gyda'r IOPC. Bydd yn eich helpu i ddeall beth ydyn ni'n ei wneud a sut yr ydym yn cynnal ein hymchwiliad. Os oes gennych Reolwr Cyswllt Teulu, ef neu hi fydd eich prif fan cyswllt a bydd yn gweithredu fel dolen rhyngoch chi a gweddill ein tîm ymchwilio.

Ein gwasanaeth: cwynion ac adborth

Os oes gennych unrhyw bryderon am y ffordd y mae eich achos wedi cael ei ymchwilio neu benderfyniad canlyniad eich achos, gall eich rheolwr cyswllt teulu neu ymchwilydd arweiniol esbonio'r penderfyniad i chi a helpu i egluro'r sefyllfa am unrhyw bryderon sydd gennych.

Os nad ydych chi'n fodlon â'u hymateb, gallwch wneud cwyn ffurfiol i'n Huned

Ymchwiliadau Mewnol. Byddant yn penderfynu ar y person mwyaf priodol i ddelio â'ch cwyn.

Manylion cyswllt sefydliadau all fod o help

INQUEST
Elusen sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda theuluoedd mewn profedigaeth yn dilyn marwolaethau yn y ddalfa yng Nghymru a Lloegr. Mae'n cynnig cyngor cyfreithiol a gall eich cyfeirio at gyfreithwyr profiadol.

020 7263 1111
www.inquest.org.uk

Swyddfa Cyngor ar Bopeth
Cymorth gyda phroblemau cyfreithiol.

034 4411 1444
Ar gyfer eich swyddfa agosaf ewch i:
www.citizensadvice.org.uk

Cyngor Cyfreithiol Sifil
Cyngor cyfreithiol am ddim os ydych yn gymwys i gael cymorth cyfreithiol. Hefyd yn cynnwys dolen i offeryn asesu cymhwyster i gymorth cyfreithiol.

034 5345 4345
www.gov.uk/civil-legal-advice

Cymdeithas y Gyfraith
Gwybodaeth am gyfreithwyr lleol.

020 7320 5650
www.solicitors.lawsociety.org.uk

Cruse Bereavement Care
Help a chefnogaeth i bobl sy'n delio â phrofedigaeth.

080 8808 1677
helpline@cruse.org.uk
www.cruse.org.uk

Y Samariaid
Cefnogaeth emosiynol gyfrinachol.

116 123 (ar gael 24 awr y dydd)
jo@samaritans.org
www.samaritans.org.uk

Road Peace
Cefnogaeth i bobl sydd wedi cael profedigaeth neu anaf difrifol trwy ddamwain ffordd.

084 5450 0355
info@roadpeace.org
www.roadpeace.org

Brake
Elusen diogelwch ar y ffordd sy'n cynnig cefnogaeth i bobl sydd wedi cael profedigaeth neu eu hanafu yn ddifrifol trwy ddamweiniau ar y ffordd a'u gofalwyr.

080 8800 0401
helpline@brake.org.uk
www.brake.org.uk

Survivors of Bereavement by Suicide
Cefnogaeth i bobl sydd wedi cael profedigaeth trwy hunanladdiad.

030 0111 5065
admin@uksobs.org
www.uksobs.org.uk

Nodiadau

Os nad ydych yn siŵr am rywbeth yn y llyfryn hwn, neu os hoffech ofyn unrhyw gwestiynau i ni am eich rôl neu'n proses ymchwilio, peidiwch ag oedi cyn cysylltu â ni.

Os bydd arnoch angen copi o'r llyfryn hwn mewn unrhyw iaith neu fformat gwahanol, cysylltwch â ni gan ddefnyddio'r manylion isod.

Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn y Gymraeg

Ffôn: 030 0020 0096
E-bost: enquiries@policeconduct.gov.uk
Gwefan: www.policeconduct.gov.uk
Twitter: @policeconduct @IOPC_Help
Text Relay: 18001 0207 166 3000

This document is also available in English.
Mae'r ddogfen hon ar gael yn y Saesneg hefyd.

Chwefror 2020